

# Amodau Cofrestru 2022/23

Cytundeb Ychwanegol ar gyfer Myfyrwyr TAR

Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru)

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Cwmpas.....  | 3  |
| Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu .....   | 3  |
| Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu.....   | 4  |
| Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol.....                                    | 5  |
| Dogfennaeth Gysylltiedig .....   | 6  |
| Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau: .....   | 6  |
| Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data: .....  | 6  |
| Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored .....   | 6  |
| Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored .....              | 7  |
| Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel.....   | 7  |
| Cyflwyniad .....   | 7  |
| Prif delerau'r Cytundeb Ychwanegol .....   | 9  |
| 1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Ychwanegol.....   | 9  |
| 2 Amodau ychwanegol ar gyfer datgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol .....                 | 10 |
| 3 Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer .....                                  | 11 |
| 4 Ymrwymiad i Addysgu.....   | 13 |
| 5 Ffioedd neu Gostau Astudio .....   | 15 |
| 6 Cytundeb ag Ysgol Lleoliad a Derfynir gan Y Brifysgol Agored.....                          | 16 |
| 7 Hawl Statudol i Ganslo Cofrestriad a Therfynu Cofrestriad/tynnu yn ôl.....                 | 16 |
| 8 Eich Astudiaethau .....  | 18 |
| 9 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio)..... | 19 |

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestrdedig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilaidd, sef broceru credyd.

|                                       |    |
|---------------------------------------|----|
| Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data..... | 21 |
| Rhestr termau.....                    | 22 |
| Fformat amgen.....                    | 25 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru.....   | 25 |
| I siaradwyr Cymraeg.....              | 25 |
| Atodiad A.....                        | 26 |

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

# Cwmpas

## Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Dim ond i fyfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar Tystysgrif Addysg i Raddedigion (Cymru) Y Brifysgol Agored y mae'r cytundeb ychwanegol hwn yn berthnasol. Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn nodi'r telerau ychwanegol mewn perthynas ag astudio cymhwyster TAR (Cymru) o dan y ddau lwybr sydd ar gael yn y rhaglen hon: y llwybr cyflogedig a'r llwybr rhan amser.

Mae myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer TAR (Cymru) fel myfyrwyr cyflogedig yn aelodau o staff cyflogedig mewn ysgol. Ariennir eu costau astudio'n llawn gan Lywodraeth Cymru drwy 'grant hyfforddi' a thelir cyflog athro heb gymhwyso gan ei sefydliad cyflogi.

Bydd myfyrwyr cyflogedig ar raglen TAR yn fyfyrwyr gyda'r Brifysgol Agored ac yn gyflogeion yn eu Hysgol Gyflogi. Bydd angen iddynt gofrestru â'r Corff Rheoleiddio (Cyngor y Gweithlu Addysg) fel gweithiwr Cymorth Dysgu Ysgol cyn iddynt ddechrau eu rhaglen TAR, a bydd angen iddynt gydymffurfio â [Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

Bydd myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu mewn ysgol, astudiaethau academiaidd a chyflogaeth ar yr un pryd. Caiff ymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydlynwyr ysgol, a thiwtoriaid ymarfer: rhoddir mwy o wybodaeth am y rolau hyn yn y Rhestr termau.

Bydd myfyrwyr sy'n astudio drwy'r llwybr rhan amser yn hunanariannu eu hastudiaeth, gan ymgymryd â chyfnodau o ymarfer dysgu yn dibynnu ar eu hamgylchiadau ac mewn cytundeb â'u hysgolion partner. Yn debyg i fyfyrwyr cyflogedig, caiff ymarfer dysgu ei asesu gan fentoriaid, cydgysylltwyr ysgolion, a thiwtoriaid ymarfer.

Ar ôl ennill cymhwyster TAR (Cymru) yn llwyddiannus, bydd Y Brifysgol Agored yn argymhell i Gyngor y Gweithlu Addysg y dylid dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Gellir diweddarau'r ddogfen hon drwy gydol y flwyddyn er mwyn cywiro gwallau, gwella eglurder neu hygyrchedd, neu fyfrio ar newidiadau i ofynion cyfreithiol neu reoliadol. Os gwneir y diwygiadau hyn ar ôl i chi gofrestru, rhoddir gwybod i chi drwy e-bost am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen hon.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2021 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2022                                |

---

## Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Ychwanegol hwn yn gymwys i'r canlynol:

- myfyrwyr nad ydynt wedi cael eu derbyn ar raglen TAR (Cymru) Y Brifysgol Agored eto
- myfyrwyr sy'n astudio modiwlau a allai gyfrannu at gymhwyster y tu allan i raglen TAR (Cymru)
- myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith eraill, fel gwaith cymdeithasol a nyrsio
- myfyrwyr sy'n astudio modiwlau neu gymwysterau safonol Y Brifysgol Agored, a ddylai gyfeirio at yr [Amodau Cofrestru](#) presennol
- myfyrwyr ar raglenni Prentisiaeth, a ddylai gyfeirio at [Amodau Cofrestru \(Prentisiaid\)](#)
- myfyrwyr sy'n astudio Microgymwysterau, a ddylai gyfeirio at [Telerau ac Amodau \(Microgymwysterau\)](#)
- Myfyrwyr sy'n astudio Cymhwyster Galwedigaethol. Dylech gyfeirio at yr [Amodau Cofrestru \(Cymwysterau Galwedigaethol\)](#).

## Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (TAR) 2021/22. Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Ychwanegol i'r prif [Amodau Cofrestru](#). Mae'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Ychwanegol hwn yn cael blaenoriaeth dros yr Amodau Cofrestru lle bo'r rhain yn wahanol.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

---

## Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol

Bu sawl newid pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r polisi hwn, sef:

- a) Mae'r term 'gweithiwr Cymorth Ysgol' wedi'i ddiwygio i 'weithiwr Cymorth Dysgu Ysgol'.
- b) Rhestr dogfennaeth gysylltiedig wedi'i diweddarau ag 'Addasrwydd i Astudio' ac 'Addasrwydd i Ymarfer' fel dogfen sy'n llywodraethu eich astudiaeth.
- c) Ychwanegwyd Adrannau newydd sy'n dwyn y teitlau "Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored" a "Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel".
- d) Diwygiad i Gymal 2.2 i gael eglurder ynghylch cliriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- e) Diwygiad i Gymal 3.4 i ychwanegu "yn amodol ar absenoldeb cyfyngiadau disgyblu eraill."
- f) Cymal newydd 3.6 sy'n rhoi manylion y gofyniad i Fyfirwyr lynu wrth y Polisi Urddas a Pharch, gan gynnwys goblygiadau lle nad yw Myfirwyr yn cydymffurfio â hyn.
- g) Cymal 4.1a) a ddiwygiwyd i egluro bod hyn yn cyfeirio at ddiwrnodau ysgol llawn.
- h) Cymal 4.1f) a ddiweddarwyd i egluro'r berthynas rhwng pellteroedd teithio i gyfleoedd ymarfer dysgu, lleoliad daearyddol a chyfrwng y rhyngweithio ar y rhaglen.
- i) Dileu'r cyfeiriad at 'y Consortia Rhanbarthol' yng Nghymalau 4.4, 4.6, 6.1 a 9.3.
- j) Diwygiad i Gymal 5.7 i ychwanegu "ac wedi dadgofrestru mewn rhai amgylchiadau."
- k) Diwygiad i 7.2a) cyfeirio at ysgol bartner.
- l) Mae dileu'r frawddeg yn 9.1 yn nodi y gall Myfirwyr Cyflogedig drosglwyddo i'r Llwybr Rhan-Amser.
- m) Diwygiadau i Gymal 10.2: Ychwanegu Deddf Safonau Iechyd Addysg (2004) a dileu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 ar gyfer Gogledd Iwerddon.
- n) Diwygiadau i'r adran 'Eglurhad pellach'.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfirwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

# Dogfennaeth Gysylltiedig

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

## Dogfennau sy'n llywodraethu eich astudiaethau:

- [Amodau Cofrestru](#)
- [Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#)
- [Addasrwydd i Astudio](#)
- Rheoliadau sy'n benodol ar gyfer rhaglen TAR

## Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data:

- [Hysbysiad Preifatrwydd TAR](#)
- [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#)

## Gwerthoedd Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd yn benodol â'r Gwerthoedd canlynol a nodir yn Siarter [Myfyrwyr Y Brifysgol Agored](#):

- Cyathrebu â'n gilydd mewn ffyrdd clir, perthnasol, cywir ac amserol.
- Ymddwyn yn foisol ac yn dryloyw, gan ddarparu a defnyddio ffyrdd teg ac agored o fynd i'r afael â'n pryderon a'n cwynion, gan ddysgu ohonynt.
- Fel myfyrwyr, rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu ac yn ymrwymo i astudio ac ymchwilio gan ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, gan gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb academiaidd.
- Cynnal a gwella safonau ac enw da ein Prifysgol, gan gydnabod cyfraniad pob aelod at ei llwyddiant.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

## Ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Brifysgol Agored

Mae polisïau'n cynnwys holl fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, Dysgwyr, Ymholwyr a Chynfyfyrwyr, ni waeth beth yw eu hoedran, statws sifil, statws dibyniaeth neu ofalu, profiad o ofal, anabledd, statws teuluol, rhywedd, hunaniaeth rhywedd, ailbennu rhywedd, statws priodasol, priodas a phartneriaethau sifil, aelodaeth o'r gymuned Teithwyr, barn wleidyddol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, cefndir cymdeithasol-economaidd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu statws aelodaeth o undeb llafur.

### Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel

Mae'r Brifysgol Agored yn ymroi i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni fydd gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath yn cael ei oddef yn Y Brifysgol Agored. Mae Rhoi Gwybod mewn Lle Diogel ar gael trwy adnodd ar-lein y caiff staff, myfyrwyr, dysgwyr ac ymwelwyr eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau o ymosod, bwlio, aflonyddu, troseddau casineb neu aflonyddu rhywiol drwyddo. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd y digwyddiadau hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod a ble y gallwch ddod o hyd i gymorth.

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru). Dylid ei darllen ar y cyd â'r ddogfen [Amodau Cofrestru](#) a'r rheolau, y rheoliadau a'r polisïau y cyfeirir atynt ynddi ac yn y cytundeb hwn.

Drwy gofrestru ar gyfer rhaglen TAR (Cymru), rydych yn cytuno i'r telerau a nodir yn yr [Amodau Cofrestru](#) (heblaw am yr eithriadau a restrir yn y tabl isod) ynghyd â'r rhai hynny a restrir yn ychwanegol yn y ddogfen hon:

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

**Tabl 1: Eithriadau i'r Amodau Cofrestru ar gyfer Llwybrau TAR**

| <b>Adran Amodau Cofrestru 2022/23</b>         | <b>Eithriadau ar gyfer Llwybr Cyflogedig TAR</b>  | <b>Eithriadau ar gyfer Llwybr Rhan Amser TAR</b>   |
|---|---|--|
| Crynodeb o brif delerau'r contract rhyngom ni | Nid yw pwyntiau 9 nac 11 yn gymwys  | Nid yw pwynt 11 yn berthnasol  |
| A Eich cytundeb                               | A1.d nid yw'r polisi "Derbyn Ymgeiswyr o dan 18 Oed" yn gymwys gan na fydd y rhaglen yn derbyn unrhyw un o dan 18 oed.<br><br>Rhoddir Adran 2.1 yn lle A2 Amod ychwanegol ar gyfer datgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol yn y Cytundeb TAR Atodol hwn | Nid yw A1.d) y polisi "Derbyn Ymgeiswyr o dan 18 Oed" yn gymwys gan na fydd y rhaglen yn derbyn unrhyw un o dan 18 oed.<br><br>Rhoddir Adran 2.1 yn lle A2 Amod ychwanegol ar gyfer datgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol yn y Cytundeb TAR Atodol hwn |
| B Eich ffioedd                                | Rhoddir Adran 5 yn lle Adran B Eich Ffioedd yn y Cytundeb TAR Atodol hwn  | Rhoddir Adran 5 yn lle Adran B Eich Ffioedd yn y Cytundeb TAR Atodol hwn   |
| E Dod â'ch cofrestriad i ben                  | Rhoddir Adran 7 yn lle E1 Canslo eich cofrestriad yn y Cytundeb TAR Atodol hwn 1  | Rhoddir Adran 7 yn lle E1 Canslo eich cofrestriad yn y Cytundeb TAR Atodol hwn   |

Mae'r Cytundeb hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich TAR, a bydd yn parhau i fod yn gymwys tan eich bod wedi cwblhau eich cymhwyster, neu tan y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi cael ei ganslo, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Dim ond drwy Gymorth a Recriwtio Myfyrwyr yn y Brifysgol Agored yng Nghymru y gall myfyrwyr gofrestru.

Am arweiniad penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â thîm TAR ar 029 2047 1170 neu anfonwch e-bost i [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk) . Mae'r tîm wedi'i hyfforddi'n arbennig i roi cyngor ar weithredu'r cytundeb hwn.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |



# Prif delerau'r Cytundeb Ychwanegol

## 1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Ychwanegol

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb bras o delerau ychwanegol eich cytundeb i astudio cymhwyster TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored. Rydych yn cytuno i'r canlynol:

- a) cydymffurfio â'r [Cod Ymddygiad ac Ymarfer](#) a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio, Cyngor y Gweithlu Addysg.
- b) mae'r adran hon yn nodi crynodeb byr o delerau atodol eich cytundeb i astudio cymhwyster TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored. Rydych yn cytuno i: a) (yn achos myfyrwyr cyflogedig) cael eich derbyn ar lwybr cyflogedig TAR. Os na fyddwch yn llofnodi'r cytundeb hwn, ni chewch gymryd rhan yng nghyfnodau ymarfer dysgu nac astudio cymhwyster TAR (Cymru), ac ni chaiff eich costau astudio eu talu gan Lywodraeth Cymru.
- c) (yn achos myfyrwyr rhan amser) cael eich derbyn ar lwybr cyflogedig TAR. Os na fyddwch yn llofnodi'r cytundeb hwn, ni chewch gymryd rhan yng nghyfnodau ymarfer dysgu nac astudio cymhwyster TAR (Cymru) ac ni fyddwch yn gymwys ar gyfer amrywiaeth o gyllid (e.e. grantiau cymell) a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer athrawon dan hyfforddiant.
- d) cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a pholisi'r Brifysgol Agored, y Consortia Rhanbarthol neu unrhyw ysgolion partner fel y nodir yn eu priod bolisiau, gweithdrefnau a thelerau cyflogaeth (yn achos myfyrwyr cyflogedig).
- e) cyrraedd y safonau academiaidd a bodloni'r gofynion seiliedig ar ymarfer ar gyfer astudio gyda'r Brifysgol Agored a'r rhai a nodir yn y [Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#). Rhaid i chi wneud hyn er mwyn ennill eich cymhwyster TAR.
- f) hysbysu'r Brifysgol Agored a'ch ysgol lleoliad cyn gynted â phosibl am unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â methu â bodloni gofynion o'r fath.
- g) deall y gall Y Brifysgol Agored atal neu derfynu eich cofrestriad, neu wrthod dyfarnu TAR (Cymru) os na fodlonir y telerau a nodir yn y cytundeb hwn.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- h) deall y gall Y Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion partner rannu gwybodaeth angenrheidiol am eich iechyd, anabledd, perfformiad academaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel. Dim ond yn unol â [Hysbysiad Preifatrwydd TAR Y Brifysgol Agored](#) y caiff ei phrosesu a chaiff ei chyfyngu i'r sefydliadau hyn.
- i) (Fel myfyriwr cyflogedig), rhaid eich bod yn byw naill ai yng Nghymru neu Lloegr ac yn gallu teithio i'ch Ysgol Gyflogi yng Nghymru yn ddyddiol.
- j) (Fel myfyriwr rhan amser), mae'n rhaid eich bod yn byw yng Nghymru ac yn gallu teithio i'ch Ysgol Gyswllt yng Nghymru yn ddyddiol.

---

## 2 Amodau ychwanegol ar gyfer datgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol

- 2.1 Mae'n rhaid i chi ddatgelu unrhyw euogfarn droseddol cyn cofrestru neu ar unrhyw bwynt y byddwch yn dod yn derbyn euogfarn droseddol yn ystod eich astudiaethau. Mae'n debygol iawn y bydd unrhyw euogfarn droseddol yn eich atal rhag astudio TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored, ond caiff pob achos ei ystyried yn unigol.
- 2.2 Mae'n rhaid i bob myfyriwr feddu ar dystysgrif y Cynllun Datgelu a Gwahardd cyn y gallant gael profiad o addysgu mewn ysgol. Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n ddarostyngedig i orchymyn, cyfyngiad neu drefniant a osodwyd gan lys neu gorff awdurdodedig ar hyn o bryd neu a ddaw'n ddarostyngedig iddynt, hysbysu Cyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd am unrhyw amodau a all eu hatal rhag cymryd rhan lawn yn eu cwrs a chymuned ehangach y Brifysgol yn ddi-oed. O dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i astudio cymhwyster TAR (Cymru) oherwydd eich bod yn mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer (gweler 3 isod). Mae'r datgeliad hwn yn ein helpu i gynorthwyo myfyrwyr i gydymffurfio ag unrhyw amodau wrth astudio gyda'r Brifysgol Agored, ac mae'n cyflawni ein rhwymedigaeth diogelu ac yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi'u Cofrestru fel Troseddwyr Rhyw ac sy'n destun Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

---

### 3 Gweithdrefnau Cod Ymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer

3.1 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Ychwanegol hwn, rydych yn cydnabod yn agored eich bod yn deall ac yn cytuno i ymrwymo i'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer diwygiedig (yn weithredol o 1 Medi 2019) a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio, Cyngor y Gweithlu Addysg: [Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

Bydd hefyd angen i fyfyrwyr cyflogedig gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel aelod o staff Cymorth Dysgu.

Mae hyn yn golygu'r canlynol:

- Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni neu'n cynnal disgwyliadau'r Cod ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru), ac nad yw dulliau cymorth eraill wedi bod yn ddigonol, efallai y cewch eich cyfeirio o dan [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#) Y Brifysgol Agored.

Gall hyn arwain at y canlynol:

- gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR;
- eich atal rhag astudio ar gyfer TAR;
- terfynu cofrestriad ar gyfer TAR;
- peidio â dyfarnu TAR.
- Rydych yn cytuno i hysbysu Cyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd ([Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk)) cyn gynted â phosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ac Ymarfer yr Awdurdod Rheoleiddio.

3.2 Er y gellid bod wedi dyfarnu credyd modiwl i chi sy'n bodloni gofynion academiaidd ac ymarfer dysgu TAR (Cymru), gall Y Brifysgol Agored penderfynu peidio â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw ar sail argymhelliad Panel Addasrwydd i Ymarfer os yw'n penderfynu eich bod wedi methu â bodloni'r safonau angenrheidiol yng Nghod Ymddygiad ac Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg, o ganlyniad i faterion a gododd cyn cyflwyno'r cymhwyster.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- 3.3 Os yw cymhwyster TAR wedi'i gyflwyno a daw unrhyw faterion a gododd cyn ei gyflwyno i'r amlwg a bod y Panel Addaswydd i Ymarfer o'r farn y dylent fod wedi cael eu datgan ac y byddai hynny wedi arwain at atal cymhwyster TAR (Cymru), caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog y Brifysgol sydd â'r pŵer i dynnu cymhwyster TAR (Cymru) yn ôl.
- 3.4 Os na chaiff cymhwyster TAR (Cymru) ei ddyfarnu, ni fyddwch yn gymwys i gofrestru i ymarfer fel athro. Os byddwch wedi llwyddo i gwblhau modiwl(au), mae'n bosibl y gall y credyd gyfrif tuag at gymwysterau eraill Y Brifysgol Agored y byddwch yn cofrestru ar eu cyfer sydd y tu allan i Raglen TAR.
- 3.5 Byddwch yn ymwybodol na fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gan Y Brifysgol Agored na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru. Ceidw Cyngor y Gweithlu Addysg yr hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru. Cyfeiriwch at [Ganllawiau Cyngor y Gweithlu Addysg](#) am y wybodaeth fwyaf diweddar am ofynion cyfredol cofrestru ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru.
- 3.6 Mae angen i fyfyrwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r [Polisi Urddas a Pharch](#) yn yr holl rhyngweithio gyda staff mewnol Y Brifysgol Agored, ac allanol (h.y. y rhai yn yr ysgol bartner). Mae hyn yn cynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb a rithwir drwy ein fforymau. Bydd methu â chadw at hyn yn arwain at y canlynol:
- gohirio'r defnydd o elfennau rhyngweithiol TAR (e.e., gohirio'r defnydd o'r fforwm);
  - gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer TAR;
  - eich atal rhag astudio ar gyfer TAR;
  - terfynu cofrestriad ar gyfer TAR;
  - peidio â dyfarnu TAR.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

---

## 4 Ymrwymiad i Addysgu

4.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru) gyda'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i'r canlynol:

- a) Cydweithredu ag unrhyw Arweinydd, Cyflogwr neu Ysgol Gyswllt lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu, a fydd yn darparu cyfnodau priodol a digonol o ymarfer dysgu i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu cymhwyster TAR (Cymru) a bodloni gofynion Cyngor y Gweithlu Addysg, sy'n cynnwys 120 (ysgol lawn) diwrnod o ymarfer addysgu.
- b) Cydweithredu ag unrhyw Ysgol Arweiniol, Ysgol Gyflogi neu Ysgol Gyswllt lle rydych yn ymgymryd ag ymarfer dysgu i fodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r ysgolion, Llywodraeth Cymru, a'r Brifysgol Agored, a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol a'u safonau gwasanaeth mewn perthynas â'ch rhan yn y cyfleoedd ymarfer dysgu a ddarperir.
- c) Cydymffurfio â'r strwythur rhaglen cywir a phriodol ar gyfer y llwybr rydych yn cofrestru ar ei gyfer; Ni all myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer rhaglen rhan amser ddefnyddio strwythur llwybr cyflogedig i gyflawni'r rhaglen.
- d) Yn achos myfyrwyr cyflogedig, dylid cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogaeth yr Ysgol Gyflogaeth a'r Ysgol Bartner.
- e) Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, yn unol ag Cymal6.2, dylech sicrhau y byddwch chi, ac y bydd eich ysgol, yn cydymffurfio â gofynion y rhaglen.
- f) Cymryd pob cam rhesymol i ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd ymarfer dysgu sydd eu hangen er mwyn cwblhau cymhwyster TAR (Cymru). Gall hyn gynnwys lefelau teithio rhesymol (a all amrywio yn dibynnu ar leoliad daearyddol ac iaith yr astudiaeth (Cymraeg neu Saesneg) y dymunwch ymgymryd â'r rhaglen drwyddi).
- g) Sicrhewch y byddwch yn mynd i bob sesiwn ymarfer dysgu a seminar ar-lein oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Ar gyfer myfyrwyr cyflogedig, dylech hefyd sicrhau y caiff unrhyw astudio a ddyrennir ei ddefnyddio at y diben bwriadedig.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- 4.2 Bydd yr Ysgol Gyswllt yn gofyn i chi gydweithredu â'ch tiwtor ymarfer, cydgysylltydd yr ysgol a'ch mentor. Bydd eich tiwtor ymarfer, cydgysylltydd yr ysgol a'ch mentor yn gwneud y canlynol:
- a) Cynnal arsylwadau a goruchwyllo ymarfer, gan gynnig adborth rheolaidd i chi drwy gydol y cyfnodau ymarfer dysgu. Gall yr arsylwadau hyn gynnwys dulliau rhithwir, gan gynnwys defnyddio meddalwedd recordio. Fel arfer, bydd yn ofynnol i bob myfyriwr ddefnyddio dulliau o'r fath. Fodd bynnag, os ceir amgylchiadau esgusodol, mae gennych yr hawl i ddewis peidio â defnyddio'r feddalwedd hon. Bydd Y Brifysgol Agored yn ystyried ceisiadau o'r fath fesul achos.
  - b) Cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan gymhwyster TAR (Cymru);
  - c) Cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a monitro, a chynnal cyfarfodydd adolygu gyda chi a'ch gilydd yn ôl y gofyn.
- 4.3 Os byddwch yn torri'r cymalau a nodir ym Mharagraffau 4.1 a 4.2, ac nad yw, ym marn eich mentor a Chyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd, yn rhesymol bosibl i chi gwblhau ymrwymiad addysgu, nid yw'n ofynnol eich Ysgol Gyflogi neu Ysgol Gyswllt a'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. Os na fyddwch yn bodloni'r [Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#) ac yn methu eich profiad addysgu (a'r cyfleoedd ailsefyll), mae'n bosibl y caiff eich astudiaethau eu hatal yn unol â'r [Amodau Cofrestru](#) (Adran E.2 "Hawl Y Brifysgol Agored i ganslo eich cofrestriad").
- 4.4 Os bydd anawsterau yn codi sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth yn ystod profiad ymarfer dysgu sy'n tarfu ar eich dysgu, bydd Y Brifysgol Agored a'r yn mynd i'r afael â hyn mewn partneriaeth â'ch ysgol lleoliad. Gall hyn gynnwys cynnig lleoliad arall i chi.
- 4.5 Os na fydd yr ysgol lleoliad yn rhoi digon o amser i chi gwblhau'r profiadau ymarfer dysgu gofynnol, bydd Y Brifysgol Agored a yn trafod hyn gyda'r ysgol ac, os bydd angen, byddant yn ymdrechu i ymestyn eich cyfnod astudio i alluogi'r ysgol lleoliad i ddarparu digon o gyfleoedd ymarfer dysgu.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

---

## 5 Ffioedd neu Gostau Astudio

- 5.1 Ni fydd disgwyl i fyfyrwyr cyflogedig gyfrannu'n uniongyrchol tuag at gostau eu hastudiaethau a chânt eu talu gan yr Ysgol Gyflogi fel athro heb gymhwyso, ar bwynt 1 y raddfa gyflog ar gyfer athro heb gymhwyso o leiaf, ar sail llawn amser.
- 5.2 O dan y llwybr cyflogedig, caiff myfyrwyr eu talu (cyflogi) gan ysgol a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru i weithio fel athro heb gymhwyso wrth iddynt astudio ar gyfer eu cymhwyster TAR. Caiff ffioedd myfyrwyr ar y llwybr hwn eu hariannu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru a chânt eu talu'n uniongyrchol i'r Brifysgol Agored drwy gydol y cymhwyster.
- 5.3 O dan y llwybr Rhan-amser, bydd myfyrwyr yn hunangyllidol. Byddant yn atebol am eu ffioedd eu hunain fel y nodir ar dudalen we [Ffioedd a Chyllid TAR yng Nghymru](#)
- 5.4 Os byddwch yn torri telerau'r Cytundeb Ychwanegol hwn, neu'n canslo/terfynu eich astudiaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i dalu eich ffioedd ar unwaith.
- 5.5 Os bydd myfyrwyr cyflogedig yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn, yn methu â chydymffurfio â'r priif [Amodau Cofrestru](#), neu'n canslo/terfynu eu hastudiaethau, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i dalu eu ffioedd ar unwaith.
- 5.6 Os bydd myfyrwr rhan amser yn torri telerau'r Cytundeb Atodol hwn neu'n yn methu â chydymffurfio â'r priif [Amodau Cofrestru](#), ni chaiff unrhyw ffioedd a delir i'r Brifysgol Agored eu had-dalu a gellir atal unrhyw Gredydau o ran Ffioedd neu drefniadau i Hepgor Ffioedd.
- 5.7 Yn achos myfyrwyr cyflogedig, os byddwch wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol, anghywir neu dwyllodrus am eich amgylchiadau yn fwriadol, mae'n bosibl y byddwch yn atebol yn bersonol am dalu rhywfaint o'ch costau astudio neu'r costau cyfan ac yn cael eich dadgofrestru mewn rhai amgylchiadau.
- 5.8 Yn achos myfyrwyr cyflogedig, os byddwch wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol, anghywir neu dwyllodrus am eich amgylchiadau yn fwriadol, mae'n bosibl y byddwch yn atebol yn bersonol am dalu rhywfaint o'ch costau astudio neu'r costau cyfan.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- 5.9 Os byddwch yn penderfynu tynnu yn ôl o'r llwybr cyflogedig ar ôl trafod â'r Brifysgol Agored, eich Ysgol Gyflogi a'ch Ail Ysgol, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i wneud cais i astudio cymhwyster TAR Y Brifysgol Agored drwy'r llwybr rhan amser. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm TAR ar 029 2047 1170 neu anfonwch e-bost i [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).
- 

## **6 Cytundeb ag Ysgol Lleoliad a Derfynir gan Y Brifysgol Agored**

- 6.1 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Ysgol Gyflogi neu Ysgol Gyswilt ei derfynu, bydd Y Brifysgol Agored a yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i offen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl brofiad ymarfer dysgu sydd ei angen.
- 6.2 Ar gyfer Myfyrwyr cyflogedig, os canfyddir bod eich Ysgol Gyflogi yn torri telerau'r rhaglen, naill ai o ran y cyflog a delir i chi, y pwnc (ar gyfer ysgolion uwchradd) sy'n ganolbwynt i'ch ymarfer dysgu, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'ch amserlen, ceidw'r Brifysgol Agored yr hawl i derfynu'r cytundeb hwnnw a'ch tynnu o'r rhaglen.
- 

## **7 Hawl Statudol i Ganslo Cofrestriad a Therfynu Cofrestriad/tynnu yn ôl**

- 7.1 Fel myfyriwr, gallwch arfer eich hawl o dan Reoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Chostau Ychwanegol) (2013) i ganslo eich cofrestriad heb gosb hyd at 14 diwrnod ar ôl dyddiad cadarnhau eich cofrestriad, ni waeth sut y telir eich ffioedd.
- 7.2 Gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestriad ar gyfer cymhwyster TAR (Cymru) o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr [Amodau Cofrestru \(Adran E\)](#). Hefyd, gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:
- Ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu ysgol bartner y cytunwyd arni.
  - Cynnal amodau'r rhaglen, megis cyflogaeth gan Ysgol Gyflogi neu fethu â chynnal y safonau proffesiynol a ddisgwyllir gan unrhyw Ysgol bartner.
  - Cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio o ran eich iechyd, cymhwysedd a safonau ymddygiad.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |



- 7.3 O ran myfyrwyr cyflogedig, os caiff eich cyflogaeth ei therfynu gan eich Ysgol Gyflogi oherwydd eich bod yn torri telerau eich contract cyflogaeth â hi, ni fyddwch yn gallu parhau ar lwybr cyflogedig y cymhwyster hwn. Efallai y gallwch wneud cais i symud i'r llwybr rhan amser, yn dibynnu ar eich amgylchiadau. I drafod eich opsiynau, cysylltwch â thîm TAR ar 029 2047 1170 neu anfonwch e-bost i [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk).
- 7.4 Yn achos Myfyrwyr rhan amser, os na fydd eich Ysgol Gyswllt yn awyddus i chi barhau yn eich lleoliad mwyach, neu os bydd unrhyw broblemau eraill yn codi, bydd Y Brifysgol Agored yn gweithio gyda'r ysgol o dan ein Fframwaith Datrys Problemau. Os na fydd modd datrys y problemau, mae'n bosibl y byddwch yn cael cynnig lleoliadau amgen, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- 7.5 Os byddwch yn penderfynu canslo eich cofrestriad ar gyfer cymhwyster TAR cyn dechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â'r Brifysgol Agored yn gyntaf er mwyn cytuno ar y goblygiadau. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, gallai effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Gyflogi (a all gynnwys dod â'ch cyflogaeth i ben)
- 7.6 Os byddwch am ganslo eich cofrestriad ar eich rhaglen TAR ar ôl i chi ddechrau astudio, bydd yn rhaid i chi drafod hyn â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol Gyswllt neu Ysgol Gyflogi yn gyntaf. Ar ôl i chi gadarnhau eich penderfyniad, bydd yn rhaid i chi wneud datganiad clir drwy lythyr neu e-bost at Gyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru, neu ei gynrychiolydd, yn [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk), gan nodi eich penderfyniad yn ysgrifenedig. Os byddwch yn canslo eich cofrestriad, ni fyddwch yn gallu aildechrau eich astudiaethau, ac ni fyddwch yn fyfyrwr gyda'r Brifysgol Agored mwyach. Caiff rheolau atebolrwydd o ran ffioedd eu pennu gan lwybr y rhaglen TAR rydych yn ei dilyn: bydd myfyrwyr ar y llwybr rhan amser yn ddarostyngedig i reolau ffioedd safonol y Brifysgol ([Rheolau Ffioedd \(Israddedigion\)](#)); ni fydd myfyrwyr ar y llwybr cyflogedig yn gymwys ar gyfer unrhyw ad-daliadau na chredydau ar gyfer ffioedd a delir cyn hynny. Yn achos myfyrwyr cyflogedig, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Gyflogi, a all gynnwys dod â'ch cyflogaeth i ben. Mater i'ch Ysgol Gyflogi fydd gwneud y penderfyniad hwn.
- 7.7 Os byddwch wedi cwblhau unrhyw fodiwl(au) yn llwyddiannus ar adeg canslo eich astudiaethau, efallai y gallwch – yn amodol ar y [Rheoliadau Academiaidd \(Cyrsiau a Addysgir\)](#) – gyfrif/eu cyfrif tuag at gymhwyster arall y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

---

## 8 Eich Astudiaethau

- 8.1 Ni allwch ohirio eich astudiaethau ran o'r ffordd drwyddynt, oni fydd amgylchiadau eithriadol, a fyddai'n cael eu pennu yn ôl disgrisiwn Cyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru, neu ei gynrychiolydd, ac yn achos myfyrwyr cyflogedig, Pennaeth yr Ysgol Gyflogi (gweler Adran 9). Os byddwch yn absennol yn fynych neu am gyfnod estynedig o unrhyw ran o'r cymhwyster TAR, mae'n bosibl y gall hyn achosi pryder a/neu sbarduno'r Fframwaith Cymorth Myfyrwyr (Gweler y Rhestr termau).
- 8.2 Fel arfer, dylech gwblhau eich cymhwyster TAR o fewn 24 mis i ddyddiad dechrau'r modiwl cyntaf. Gweler Adran 9 os credwch na fydd hyn yn bosibl.
- 8.3 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad TAR (Cymru), bydd yn rhaid i chi fodloni gofynion academaidd Y Brifysgol Agored a gofynion y [Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth](#) yn foddhaol.
- 8.4 Mae'n rhaid i chi fodloni'r holl ofynion priodol a chwblhau'r holl fodiwlau priodol yn llwyddiannus fel y'u nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i gymhwyster TAR (Cymru) er mwyn cael y dyfarniad.
- 8.5 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyno, lle bo'n berthnasol), bydd angen i chi adael y cymhwyster TAR. Os byddwch wedi dechrau astudio'r modiwl nesaf tra'n aros am ganlyniadau, ni fyddwch yn gallu cwblhau'r modiwl hwnnw. Caiff ffi eich modiwl ei ad-dalu.
- 8.6 Os byddwch yn gadael neu os na fyddwch yn gymwys mwyach ar gyfer llwybr cyflogedig y cymhwyster TAR, gall hyn effeithio ar eich Telerau Cyflogaeth gyda'ch Ysgol Gyflogi, a all gynnwys dod â'ch cyflogaeth i ben. Caiff y penderfyniad hwn ei wneud gan eich Ysgol Gyflogi.
- 8.7 Mae'n rhaid i chi lwyddo ym mhob modiwl er mwyn ennill cymhwyster TAR. Os na fyddwch yn llwyddo yn yr Asesiad Diwedd Modiwl (sy'n cynnwys asesiad academaidd a gwerthusiad ymarfer dysgu) ar y cynnig cyntaf, mae'n bosibl y cewch eich gwahodd i'w ailgyflwyno, yn dibynnu ar eich canlyniadau. Os na chynigir cyfle i chi ailgyflwyno, neu os na fyddwch yn llwyddo yn y modiwl ar ôl eich ail gynnig, bydd Y Brifysgol Agored yn eich dadgofrestru o'r rhaglen.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- 8.8 Dim ond ar TAR1 a TAR3 (modiwl cyntaf a modiwl olaf y cymhwyster) y caniateir ailgyflwyno. Ar gyfer TAR2 (y modiwl sy'n ofynnol er mwyn symud ymlaen i flwyddyn 2 o'r cymhwyster), o dan rai amgylchiadau gall Myfyrwyr gael cynnig arholiad llafar yn lle asesiad academaidd ysgrifenedig (gweler Atodiad A: amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfirwyr gwblhau'r rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster).

---

## 9 Newid Eich Cynlluniau Astudio (Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio)

- 9.1 O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwch yn penderfynu bod angen i chi roi'r gorau i astudio cyn i chi gyflwyno'r Asesiad Diwedd Modiwl ar gyfer modiwl (gweler Atodiad A: amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfirwyr gwblhau'r rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster). Gelwir hyn yn ohirio ac mae'n golygu y byddech yn rhoi'r gorau i astudio'r modiwl rydych wedi cofrestru ar ei gyfer ar hyn o bryd cyn cyflwyno a llwyddo yn eich asesiad ar gyfer y modiwl hwnnw; byddai'r Brifysgol Agored yn eich ailgofrestru i ddechrau'r modiwl hwnnw ar ei ddyddiad dechrau nesaf. Rhaid rhaid i chi drafod eich opsiynau gyda Chyfarwyddwr y Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd ([Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk)). Nid oes sicrwydd y cewch ohirio'r cymhwyster TAR. Dylid trafod unrhyw oblygiadau cyflogaeth i fyfirwyr cyflogedig â'ch Ysgol Gyflogi.
- 9.2 Os caniateir i chi ohirio, byddwch yn ailymuno â'r un modiwl ar y dyddiad dechrau nesaf. Caniateir i chi gario tystiolaeth a gasglwyd yn flaenorol yn eich e-bortffolio drosodd a pharhau i gyfrannu ati. Byddwch yn ailddechrau astudio o ddechrau'r modiwl. Ni ellir gwarantu y bydd y dystiolaeth asesu sy'n ofynnol pan fyddwch yn ailddechrau'r modiwl yr un fath â'r dystiolaeth yr oedd ei hangen yn y modiwl cynharach a ohiriwyd gennych. Gallai rhoi'r gorau i astudio effeithio ar eich cyflogaeth.
- 9.3 Gellir ystyried ceisiadau i ohirio os nad ydych wedi gallu astudio oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A: amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfirwyr gwblhau'r rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir ystyried gohirio yn cynnwys y canlynol:

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

- i) os ydych wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y [Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer](#) a'ch bod wedi cael eich adfer ar ôl hynny;
- ii) yn achos Myfyrwyr cyflogedig, os daw eich cyflogaeth yn yr ysgol i ben ac nad chi oedd ar fai, ac ni all Y Brifysgol Agored ddod o hyd i ysgol arall ar unwaith a fydd yn eich helpu i gwblhau'r cymhwyster TAR (Cymru). Noder y bydd Y Brifysgol Agored a Chonsortia Rhanbarthol yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i ysgol arall i chi. Agored a yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i ysgol arall i chi.

9.4 O dan rai amgylchiadau, mewn cytundeb â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol gyflogi neu o dan y [Polisi Addasrwydd i Astudio](#), efallai y caniateir i chi gymryd seibiant astudio rhwng modiwlau (gweler Atodiad A: amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfyrwyr gwblhau'r rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster). Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau modiwlau mewn un flwyddyn a chyn dechrau'r modiwl nesaf y flwyddyn ganlynol. Er mwyn cymryd seibiant astudio, byddwch wedi cyflwyno ac wedi llwyddo yn eich asesiad ar gyfer y modiwl rydych yn ei astudio ar hyn o bryd, cyn dechrau'r modiwl nesaf, ar ôl i chi orffen eich seibiant astudio. Gallai cymryd seibiant astudio effeithio ar eich gallu i gwblhau'r cymhwyster TAR: Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cymhwyster TAR, mae'n rhaid cwblhau'r holl astudiaethau o fewn pedair blynedd i ddyddiad dechrau modiwl TAR 1. Mae'n rhaid trafod y weithdrefn a'r rhesymau dros gymryd seibiant astudio o'r fath gyda Chyfarwyddwr Rhaglen TAR yng Nghymru neu ei gynrychiolydd a Phennaeth eich Ysgol Gyflogi. Nid oes sicrwydd y byddech yn cael cymryd seibiant astudio ar y llwybr myfyriwr cyflogedig.

9.5 Os na fydd yr astudiaethau wedi'u cwblhau o fewn pedair blynedd, ni fyddwch yn ennill y cymhwyster TAR ac ni wneir argymhelliad i ddyfarnu SAC. Mae'n bosibl y gallwch, yn amodol ar y Rheoliadau Academiaidd (Cyrsiau a Addysgir), ddefnyddio unrhyw greydau rydych eisoes wedi'u cwblhau ar gyfer cymhwyster arall y byddwch yn cofrestru ar ei gyfer y tu allan i Raglen TAR.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

## Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

- 10.1 Gall Y Brifysgol Agored, Consortia Rhanbarthol ac ysgolion partner rannu gwybodaeth angenrheidiol am eich iechyd, anabledd, perfformiad academaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel. Dim ond yn unol â [Hysbysiad Preifatrwydd TAR Y Brifysgol Agored](#) y caiff ei phrosesu a chaiff ei chyfyngu i'r sefydliadau hyn.
- 10.2 Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd sydd wedi'i ddatgan gael ei rhannu ag Ysgolion yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol er mwyn darparu addasiadau rhesymol i gydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Deddf Addysg (Safonau Iechyd) (2004); neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall.
- Hefyd, gall data gael eu rhannu fel nad ydych chi nac aelodau o'r cyhoedd mewn perygl wrth i chi gyflawni lleoliad.
- 10.3 Gweler [Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#) Y Brifysgol Agored, yn ogystal â [Hysbysiad Preifatrwydd TAR](#) am wybodaeth lawn am y ffordd y caiff data eu casglu a'u defnyddio gan Y Brifysgol Agored.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

# Rhestr termau

## Ysgol Gyswilt

Ysgol lle bydd myfyrwyr TAR rhan amser yn ymgymryd â chyfnodau ymarfer dysgu.

## Cod Ymddygiad ac Ymarfer

Mae'r cod hwn yn cynnwys y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer athrawon, fel y'u cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio: [Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y Gweithlu Addysg](#).

## Cyflwyno cymhwyster

Y pwynt lle y dyfernir eich cymhwyster i chi yn ffurfiol drwy brosesau dyfarnu'r Brifysgol Agored.

## Tiwtor Cwricwlwm

Ystyr hyn yw cyswilt allweddol Athrawon dan hyfforddiant â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Gohirio eich astudiaethau neu Gymryd Seibiant Astudio

Gohirio: o dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A), mae'n bosibl y byddwch yn penderfynu bod angen i chi roi'r gorau i astudio cyn i chi gyflwyno'r Asesiad Diwedd Modiwl ar gyfer modiwl. Gelwir hyn yn ohirio ac mae'n golygu y byddech yn rhoi'r gorau i astudio'r modiwl rydych wedi cofrestru ar ei gyfer ar hyn o bryd cyn cyflwyno a llwyddo yn eich asesiad ar gyfer y modiwl hwnnw, ac y byddai'r Brifysgol Agored yn eich ailgofrestru i ddechrau'r modiwl hwnnw ar ei ddyddiad dechrau nesaf.

Cymryd seibiant astudio: o dan rai amgylchiadau (fel y'u nodir yn Atodiad A) neu o dan y [Polisi Addasrwydd i Astudio](#), ac mewn cytundeb â'r Brifysgol Agored a'ch Ysgol Gyflogi, efallai y caniateir i chi gymryd seibiant astudio rhwng modiwlau. Mae hyn yn golygu y byddech yn cymryd seibiant o astudio rhwng cwblhau modiwlau mewn un flwyddyn a chyn dechrau'r modiwl nesaf y flwyddyn ganlynol. Er mwyn cymryd seibiant astudio, byddwch wedi cyflwyno ac wedi llwyddo yn eich asesiad ar gyfer y modiwl rydych yn ei astudio ar hyn o bryd, cyn dechrau'r modiwl nesaf, ar ôl i chi orffen eich seibiant astudio. Gall cymryd seibiant astudio effeithio ar eich gallu i gwblhau'r TAR.

## E-bortffolio

Mae hwn yn cynnwys tystiolaeth a gyflwynwyd gan y myfyriwr ar ddiwedd pob modiwl, i ddangos ei gynnydd tuag at gyflawni deilliannau'r cymhwyster TAR.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

## **Ysgol Gyflogi**

Ysgol sy'n cyflogi athro dan hyfforddiant sy'n dilyn y rhaglen TAR. Caiff athrawon dan hyfforddiant eu cyflogi ar gyfradd athro heb gymhwyso fel y'i pennir gan y strwythur cyflog cenedlaethol i athrawon yng Nghymru.

## **Ysgol Bartner Arweiniol**

Ysgol sy'n aelod arweiniol o bartneriaeth Y Brifysgol Agored. Mae gan yr ysgolion hyn lais strategol o ran cyfeirio a rheoli'r bartneriaeth.

## **Mentor**

Eich prif gyswllt yn eich Ysgol Gyflogi sy'n eich helpu i gwblhau eich astudiaethau TAR.

## **Modiwl**

Mae'r term hwn yn cyfeirio at gyfres o unedau astudio; mae rhaglen TAR yn cynnwys tri modiwl. Rhaid i fyfyrwr gwblhau'r asesiadau academaidd a bodloni'r gofynion ymarfer dysgu yn llwyddiannus ar gyfer pob modiwl er mwyn llwyddo.

## **Ysgol Bartner**

Ysgol sydd â statws Arweiniol, Cyflogi neu Gyswllt. Gall ysgolion fod â mwy nag un statws.

## **Llwybr Rhan Amser**

Y llwybr drwy'r cymhwyster TAR yng Nghymru a hunanariennir gan fyfyrwyr. Gall myfyrwyrwneud cais am fenthyciad i fyfyrwr a grantiau cynhaliaeth rhan amser. Mae'r llwybr hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd oherwydd gallant gael profiad addysgu ymarferol rhan amser mewn ysgol ochr yn ochr ag ymrwymadau presennol.

## **Cyfnodau Ymarfer Dysgu**

Amser penodol i gael profiad addysgu TAR ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dilyn y rhaglen gyflogedig.

## **Ymarfer dysgu/ dysgu sy'n seiliedig ar ymarfer**

Y term cyffredinol ar gyfer profiadau dysgu sydd wedi'u lleoli mewn amgylchedd ymarfer.

## **Tiwtor Ymarfer**

Tiwtor Addysg Gychwynnol Athrawon profiadol o ysgol arall sy'n monitro eich cynnydd ar y cymhwyster TAR.

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

## Llwybrau yn y cymhwyster TAR

Mae dau lwybr i gyflawni'r cymhwyster hwn: mae'r Llwybr Cyflogedig a'r Llwybr Rhan Amser yn cynnwys tri modiwl, sef dau fodiwl 30 credyd ar Lefel 6 (israddedig) a modiwl 60 credyd ar Lefel 7 (ôl-raddedig):

### Llwybr cyflogedig

Mae hyn yn cyfeirio at fyfyrwyr a gyflogir gan ysgol wladol fel cynorthwydd addysgu, neu mewn rôl nad yw'n rôl addysgu, a all wneud cais i'w hysgol eu cymeradwyo. Mae myfyrwyr sy'n dilyn y llwybr hwn yn gweithio mewn ysgol yn llawn amser ac mae'n rhaid i'w cais gael ei gymeradwyo gan eu hysgol (a fydd yn talu eu cyflog). Caiff eu costau astudio eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gall myfyrwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgol wladol ar hyn o bryd wneud cais am y llwybr cyflogedig ond bydd angen cymeradwyaeth arnynt gan ysgol wladol.

### Cydlynnydd Ysgol

Uwch-aelod o staff yr ysgol, a ddarperir gan ysgolion.

### Ail Ysgol

Yr Ail Ysgol y caiff myfyrwyr cyflogedig eu lleoli ynddi i gwblhau eu hymarfer dysgu.

### Recriwtio a Chymorth Myfyrwyr

Mae hyn yn cyfeirio at yr adran yn Y Brifysgol Agored yng Nghymru sy'n delio ag ymholiadau ynghylch cofrestru, ac sy'n darparu cymorth bugeiliol, cymorth cyffredinol a chymorth arbenigol ychwanegol (e.e. cymorth anabled) i Fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau.

Eglurhad pellach o'r Cytundeb Atodol hwnAm arweiniad penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â thîm TAR ar 029 2047 1170 neu anfonwch e-bost i [Wales-PGCE@open.ac.uk](mailto:Wales-PGCE@open.ac.uk). Mae'r tîm wedi'i hyfforddi'n arbennig i roi cyngor ar weithredu'r cytundeb hwn.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ddogfen bolisi hon a sut y gellir ei gwella, cyflwynwch y rhain i [SPR-Policy-Team@open.ac.uk](mailto:SPR-Policy-Team@open.ac.uk).

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |



## Fformat amgen

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth arall at Y Brifysgol Agored yn electronig er mwyn i ni allu ymateb i chi cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy'r post. Er mwyn cadarnhau'r cyfeiriad post diweddaraf a manylion cyswllt eraill, neu os hoffech ddysgu mwy am ein hamseroedd ymateb diweddaraf ar gyfer derbyn ac anfon gohebiaeth at Y Brifysgol Agored drwy'r post, gweler [Swyddfeydd Y Brifysgol Agored](#).

Os bydd angen i chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru:

### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Os byddwch yn byw yng Nghymru, gallwch siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg neu yn Saesneg.

18 Heol y Tollty

Caerdydd

CF10 1AP

Ffôn +44 (0)29 2047 1170

E-bost [wales-support@open.ac.uk](mailto:wales-support@open.ac.uk)

### I siaradwyr Cymraeg

Os ydych yn siarad Cymraeg a byddai'n well gennych drafod eich anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg, cysylltwch â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yng Nghaerdydd os gwelwch yn dda

ffôn +44 (0)29 2047 1170 neu e-bost [wales-support@open.ac.uk](mailto:wales-support@open.ac.uk)

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2022 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2023                                |

# Atodiad A

Tabl 2: Amgylchiadau lle y gellir ystyried gohirio astudiaethau neu roi seibiant astudio i Fyfirwyr gwblhau'r rhaglen TAR a chyflawni'r cymhwyster.

| Maen prawf  | Amodau a nodiadau  | Enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ategol sydd eu hangen  |
|---|--|---|
| 1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd.   | Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn dibynnu arnoch chi.   | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os bu'r farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais).   |
| 2. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu oherwydd salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol | Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid i gyfnod y salwch gael effaith ar bryd y tynnir yn ôl). |

Rhif y fersiwn: 1.0

Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfirwyr a Pwyllgor Addysg

Yn weithredol o: 1 Mawrth 2021

Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2022

| Maen prawf  | Amodau a nodiadau  | Enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ategol sydd eu hangen   |
|---|--|--|
| 3. Anabledd   | <p>Nid yw'r addasiadau rhesymol a wnaed gan y Brifysgol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2015 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, wedi eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu</p> <p>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu</p> <p>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl.</p> | <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.</p> <p>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor neu'r Tîm Cymorth Myfyrwyr</p> |
| 4. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd beichiogrwydd, mamolaeth/tadolaeth, neu fenthyg croth. | <p>Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid i effaith y beichiogrwydd, mamolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau fod yn fwy na'r hyn y gellid ei ragweld yn rhesymol.</p>  | <p>Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.</p> <p>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol, e.e. meddyg teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwaig yn cadarnhau'r sefyllfa.</p>                              |

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2021 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2022                                |

| Maen prawf   | Amodau a nodiadau   | Enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ategol sydd eu hangen  |
|--|---|---|
| 5. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd mabwysiadu.   | Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiad cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid i effaith y broses fabwysiadu neu'r cyfrifoldebau gofalu ar eich astudiaethau fod yn fwy na'r hyn y gellid ei rhagweld yn rhesymol.   | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol neu'r asiantaeth mabwysiadu, neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 6. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd ailbennu rhywedd  | Os oeddech wedi bod drwy'r broses o ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa.                              |
| 7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, cyfathrebu gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio. | Ni chaiff amgylchiadau a all ddigwydd fel arfer wrth ymgymryd â'ch cyflogaeth llwybr cyflogedig fel newid tasgau, cynnydd yn y llwyth gwaith neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried.   | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>E.e. llythyr neu e-bost gan eich Ysgol Gyflogi.   |

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2021 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2022                                |

| Maen prawf   | Amodau a nodiadau   | Enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth ategol sydd eu hangen  |
|--|---|---|
| 8. Camweinyddu ar ran y Brifysgol.                                   | Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran y Brifysgol ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academiaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. | Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwyr.   |
| 9. Amgylchiadau eithriadol eraill difrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth. | Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus.  | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau brys, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd, neu ddogfennaeth yswiriant cartref.  |
| 10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu                        | Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol.   | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>E.e. Llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0            | Cymeradwywyd gan: Pwyllgor Profiad Myfyrwyr a Pwyllgor Addysg |
| Yn weithredol o: 1 Mawrth 2021 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2022                                |